# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) Diwygio (Cymru) 2000

**Y Cefndir**

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992 yn rheoleiddio'r telerau y bydd meddygon yn darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol odanynt.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr gyda'r canlyniad –

(a) bod modd tynnu enw meddyg oddi ar y rhestr feddygol os yw wedi'i gollfarnu o lofruddio neu wedi'i gollfarnu o dramgwydd troseddol a'i ddedfrydu i chwe mis o garchar o leiaf.

(b) bod rhaid i feddyg sy'n gwneud cais am gael ei enwebu neu ei gymeradwyo ar gyfer swydd wag mewn practis wneud datganiad ynghylch tramgwyddau troseddol a chamymddygiad proffesiynol, y gall yr Awdurdod Iechyd wrthod ei gymeradwyo neu ei enwebu o'u herwydd.

(c) bod rhaid i Awdurdod Iechyd gynnwys yn ei Adroddiad fanylion y datganiad y cyfeiriwyd ato uchod, wrth gyfeirio materion ynghylch swyddi gwag ymarferwyr meddygol at y Pwyllgor Practisiau Meddygol.

Mae'r Rheoliadau presennol yn darparu bod y diwygiadau hyn yn cael effaith yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ar ôl cael cyfle i fwrw golwg dros ddrafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, llwyddodd Cynghorwyr

Cyfreithiol y Pwyllgor i dynnu sylw at wall drafftio posibl yn rheoliad 2, y byddai wedi bod yn ofynnol adrodd amdano o dan Reol Sefydlog 11, er nad oedd yn effeithio ar ddilysrwydd y Rheoliadau.

Serch hynny, mae'r mater hwn wedi'i gywiro bellach yn y drafft presennol, ac felly nid oes unrhyw bwyntiau y mae angen i'r Pwyllgor wahaodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

## Sylwadau Cyffredinol

**Y Nodyn Esboniadol**
Awgrymir y gallai'r Nodyn Esboniadol fod ar ffurf a fyddai'n fwy o gymorth i'r defnyddiwr. Mae'r Nodyn yn ceisio esbonio'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr ac sydd bellach yn gymwys i Gymru, ond mae pob paragraff yn cyfeirio'n gyntaf at y Rheoliadau diwygio a dim ond ar y diwedd y mae'n nodi'r ddarpariaeth yn y prif Reoliadau sydd wedi'i diwygio. Bernir y gellid bod wedi sicrhau fformat cliriach fel a ganlyn -

> "Mae'r diwygiadau sy'n gymwys i Gymru fel a ganlyn –
>
> > Diwygir Rheoliad 7 o Reoliadau 1992 i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdod Iechyd dynnu oddi ar ei restr feddygol unrhyw feddyg a gollfernir o lofruddio neu a gollfernir o dramgwydd troseddol ac a ddedfrydir i chwe mis o garchar o leiaf.
> >
> > Diwygir Rhan III o Atodlen 3 i Reoliadau 1992 drwy orfodi gofyniad …. . etc".

**Yn dod i rym**
Yn y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deddfau, dylai'r dyddiad hwn fod wedi'i fewnosod ar frig y Rheoliadau ac yn rheoliad 1(1).

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-82
9 Mai 2000